TGAU

# CBAC TGAU
# Drama

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 2

Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# Cynnwys


Cyflwyniad ... 1
Nodau'r Canllawiau Addysgu ... 1
Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ... 1
Strwythur y cymhwyster ... 2
Asesu ... 3
Crynodeb o'r Asesiad ... 3
Trosolwg o Uned 2 ... 4
Perfformiad o Destun ... 4
Amcanion asesu a phwysoli Uned 2 ... 6
Uned 2 Canllawiau i Athrawon ... 7
Profiadau Dysgu ... 11
Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 14
Atodiad A ... 31
Amseriadau Perfformiad ... 31
Atodiad B ... 32
Y Viva ... 32


© WJEC CBAC Ltd.2025

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Drama wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2027, gan ddefnyddio graddau A* i G.

## Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Drama a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

## Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.



© WJEC CBAC Ltd.2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Drama yn cynnwys 3 uned. Cymhwyster llinol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Dyfeisio Theatr | Asesiad ymarferol di-arholiad | 40% |
| **Uned 2** | Perfformiad o Destun | Asesiad ymarferol di-arholiad | 30% |
| **Uned 3** | Dehongli Theatr | Arholiad ar-sgrin | 30% |


© WJEC CBAC Ltd.2025

## Asesu
## Crynodeb o'r Asesiad

| **Uned 2: Perfformiad o Destun**<br>***Asesiad ymarferol di-arholiad***<br>**30**% o'r cymhwyster<br>**72 marc** |
|---|
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Wedi'i farcio gan arholwr ymweld. Gall dysgwyr ddewis naill ai perfformio **neu** ddylunio.<br><br>Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa am o leiaf pum munud. Bydd dylunwyr yn amlinellu eu syniadau mewn cyflwyniad Viva nad yw'n cael ei asesu.<br><br>Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phedwar** o actorion.<br><br>Gall hyd at **ddau** ddysgwr ychwanegol, a phob un yn gweithio ar sgìl dylunio gwahanol, weithio gyda phob grŵp perfformio. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

# Trosolwg o Uned 2

## Perfformiad o Destun

Asesiad ymarferol di-arholiad
Wedi'i farcio gan arholwr ymweld
30% o'r cymhwyster
72 marc

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr o ran datblygu, newid a mireinio eu perfformiad neu ddyluniad eu hunain sy'n seiliedig ar destun
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso'u sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio a pherfformio amrywiaeth o destunau theatraidd, o amrywiol genres a chyfnodau, ac yn gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau, persbectifau a chyfraniadau yng Nghymru a'r byd. Gellir cysylltu'r archwilio hefyd ag amrediad o arddulliau a genres theatraidd, â nodau artistig amrywiol ymarferwyr/cwmnïau theatr, a thrwy ddefnyddio theatr fyw a/neu theatr wedi'i recordio ymlaen llaw/wedi'i ffrydio'n fyw fel ffynhonnell bosibl o ddylanwad ar gyfer syniadau perfformio neu ddylunio
- **creu** – yn gysylltiedig â'r broses o greu a gwireddu'r perfformiad terfynol yn seiliedig ar destun; gallent gael y profiad o hyn naill ai fel actorion **neu** fel dylunwyr.

Bydd gan ddysgwyr ddewis rhydd o ran eu testun gyfer Uned 2; ond mae'n rhaid i'r testun fod yn wahanol i'r testun gosod a ddewisir yn Uned 3.
Gall dysgwyr ddewis cwblhau'r uned hon fel actorion **neu** ddylunwyr, waeth beth fo'u llwybr dewisol yn Uned 1.

Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis **un** o'r canlynol:

- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set a phropiau
- dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur.

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:

- greu a datblygu darn(au) o destun perfformiad cyhoeddedig i'w berfformio
- dangos a chymhwyso sgiliau perfformio **neu** ddylunio a fydd yn cael eu gwireddu yn y perfformiad terfynol.



© WJEC CBAC Ltd.2025

Bydd gan ddysgwyr ryddid wrth ddewis testun ar gyfer Uned 2. Fodd bynnag, mae'n **rhaid** i'w dewis o destun fod yn wahanol i'r testun gosod a ddewiswyd yn Uned 3.

Gall dysgwyr ddewis cael eu hasesu naill ai ar actio **neu** ddylunio.
Bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rhwng dau a phedwar actor.
Gall pob grŵp gael hyd at ddau ddylunydd, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio gwahanol.

Bydd hyd y darn theatr hwn yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp a dylai fod fel a ganlyn:
- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor:7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa **am o leiaf bum munud**.
Nid yw nifer y dylunwyr mewn grŵp yn effeithio ar hyd y darn.

**Viva**
Rhaid i bob dysgwr sy'n dewis dylunio roi cyflwyniad 3-5 munud o hyd yn sôn wrth yr arholwr am eu dyluniad. Nid yw'r viva yn cael ei asesu a bydd yn digwydd ar ôl y perfformiad. Mae'n gyfle i ddysgwyr esbonio a chyflwyno eu dyluniad i'r arholwr.
Bydd yr uned hon yn cael ei chwblhau yn y flwyddyn astudio olaf.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 72 o farciau.
Asesir yr uned hon gan arholwr ymweld.

| | |
|---|---|
| 2.1.1 | Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr |
| 2.1.2 | Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw |


© WJEC CBAC Ltd.2025

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 2

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio | - |
| AA2 | Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio | 22.5% |
| AA3 | Adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. | - |
| AA4 | Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatraidd a/neu berfformiadau | 7.5% |


© WJEC CBAC Ltd.2025

# Uned 2 Canllawiau i Athrawon

## 2.1 Perfformio

| Ymhelaethiad o'r Cynnwys | | Canllawiau i Athrawon |
|---|---|---|
| 2.1.1<br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr | Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• (ar ôl archwilio amrywiaeth o ddarnau perthnasol) greu a datblygu darn(au) o destun perfformiad cyhoeddedig i'w berfformio.<br><br>Dylai canolfannau nodi nad oes angen i bob dysgwr yn y grŵp addysgu ddewis darn(au) o'r un testun perfformiad. | • Dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o ddarnau o genres amrywiol (e.e. comedi, drama, clasurol, abswrd), archwilio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ar ôl archwilio'r genres hyn drwy dreu'n fyrfyfyr, bydd dysgwyr yn gallu adnabod genre perfformiad sy'n apelio iddynt wrth ddewis eu testunau. Dylai athrawon wneud pob ymdrech i gynnig amrywiaeth eang o destunau a sicrhau bod dramâu a ysgrifennir gan ddramodwyr o Gymru ac sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr.<br><br>• Dylai athrawon gynnig amrywiaeth eang o destunau i'w harchwilio o gyfnodau a diwylliannau amrywiol a chynnwys gwaith o safbwyntiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Dylid cynnal trafodaethau â dysgwyr ynghylch y themâu a'r safbwyntiau amrywiol a gaiff eu harchwilio yn y testunau hyn. *Nodyn atgoffa na all dysgwyr berfformio darn o'r testun y maent yn ei astudio ar gyfer Uned 3.*<br><br>• Nid yw'n ofynnol i bob dysgwr berfformio darnau o'r un testunau a dylai athrawon ddweud wrth ddysgwyr pa destunau fyddai'n eu helpu orau i wrth gyrchu'r asesiad; fodd bynnag, y dysgwyr ddylai wneud y penderfyniad terfynol. Mae'n bwysig bod athrawon yn ymwybodol o'r dewisiadau a wnaed gan ddysgwyr i sicrhau bod themâu a chymeriadau'n cael eu dewis.<br><br>• Gallai dysgwyr restru'r themâu a ddefnyddir a'r cymeriadau a chwaraeir yn Uned 1 i herio eu hunain drwy chwilio am destunau newydd, gwrthgyferbyniol. Fodd bynnag, bydd cymeriad ac arddull |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | tebyg a berfformir yn Uned 1 yn fwy addas i rai dysgwyr er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i gyflawni potensial.<br>• Gallai dysgwyr mwy abl sy'n dymuno herio eu hunain yn yr uned hon ddewis testun sy'n adlewyrchu arddull/ymarferwr penodol neu ddewis cymhwyso arddull, e.e. Theatr Gorfforol i destun fel, *"Wrth Aros Godot."* Nid yw hyn yn ofyniad ond byddai'n gyfle i gyrraedd dysgwyr mwy abl yn greadigol.<br><br>• Mae gwylio hen berfformiadau o'ch canolfan yn ffordd effeithiol o sicrhau bod dysgwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau oherwydd gall gweld testunau ar waith ysbrydoli ac arwain dewisiadau personol dysgwyr.<br><br>• Gall pennu tasgau gwaith cartref i wylio hen berfformiadau, boed yn amateur ac yn broffesiynol, helpu dysgwyr i wneud penderfyniad gwybodus o ran pa destunau a darnau i'w dewis ar gyfer y perfformiad. Dylai ymgeiswyr dylunio ymchwilio i hen gynyrchiadau i gael ysbrydoliaeth ar elfennau dylunio cyn dewis testun addas i weithio arno. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| 2.1.2<br>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw | Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• arddangos a chymhwyso eu sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw o destun perfformiad cyhoeddedig.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>(perfformio)<br>• dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau perfformio<br>• cyfleu eu dehongliad o gymeriad(au) a sicrhau ymgysylltiad cynulleidfa<br>• cyfrannu at y perfformiad<br><br>(dylunio)<br>• dangos eu gallu i gymhwyso sgiliau dylunio (fel sy'n berthnasol i'r opsiwn dylunio a ddewiswyd)<br>• cyfleu eu dehongliad o'r darn(au) a sicrhau ymgysylltiad cynulleidfa<br>• sicrhau bod eu dyluniad yn cyfrannu at y perfformiad. | Dylai'r athrawon:<br>• Gwyliwch berfformiad pob grŵp deirgwaith yn ystod y cyfnod ymarfer. Un awgrym o ran sut i strwythuro hyn fyddai:<br>1. Ar ddechrau'r broses ymarfer, canolbwyntio ar eu dealltwriaeth o'r testun a'u cymeriadau.<br>  • *A ydynt yn deall popeth y maent yn ei ddweud?*<br>  • *A oes dealltwriaeth gadarn o'u cymeriadau a'u cymhellion?*<br>  • *A yw'n amlwg eu bod yn deall y gydberthynas rhwng y cymeriadau yn yr olygfa?*<br><br>2. Pan fydd y dysgwyr wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio eu sgriptiau, gallai'r athrawon ganolbwyntio ar eu llwyfannu a'r defnydd o'r llwyfan.<br>  • *A yw'r blocio'n gwneud synnwyr?*<br>  • *A ydynt yn defnyddio'r llwyfan yn effeithiol?*<br>  • *A oes dealltwriaeth o ble fydd y gynulleidfa'n eistedd?*<br><br>3. Yn olaf, gyda'r perfformiad terfynol yn agosáu, gallai'r athrawon wylio ymarfer gwisgoedd o'r testun a chynnig awgrymiadau mireinio i bob dysgwr.<br>  • *A oes unrhyw linellau y mae angen eu cyflwyno'n gliriach?*<br>  • *A oes adeg yn yr olygfa y mae angen rhoi mwy o egni iddi?*<br>  • *A ellid gwella'r rhyngweithio drwy newid pellter rhwng actorion mewn rhan benodol o'r perfformiad?*<br><br>Wrth baratoi ar gyfer Uned 2, dylid cymryd cyfleoedd i atgyfnerthu'r ddealltwriaeth o sut byddai actor neu ddylunydd yn cymhwyso sgiliau mewn perfformiad; gall dysgwyr addasu'r ddealltwriaeth hon a'i chymhwyso wrth sefyll papur Uned 3. Gallai perfformwyr wneud y canlynol:<br>• Arbrofi gyda thechnegau ymarfer amrywiol fel 'rôl ar y wal', 'olrhain meddyliau' a 'chadair goch'.<br>• Anodi sgriptiau gyda chyfarwyddiadau llwyfan fel ffordd o ymarfer y broses o ysgrifennu syniadau ymarferol ar bapur.<br>• Defnyddio techneg Stanislavski o greu unedau yn seiliedig ar gymhelliant cymeriad i ddeall y cymeriad yn well a'i nodau ac amcanion. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| | | • Arbrofi drwy berfformio'r darn ar amrywiaeth o siapiau llwyfannau a thrafod yr effaith a gaiff hyn ar y gydberthynas â'r gynulleidfa.<br>• Perfformio i'r dosbarth neu i grwpiau eraill yn ystod y broses ymarfer a hunanwerthuso a gwerthuso'r gwaith; bydd hyn yn helpu i feithrin sgiliau dadansoddi a gwerthuso ar gyfer Uned 3.<br>• Cadw dyddiadur adfyfyriol o benderfyniadau a diwygiadau a wnaed yn ystod y broses ymarfer, cymryd cyfle i wella prosesau rhesymu a chyfiawnhau (*D.s.* ***nid*** *yw logiau adfyfyriol yn ofyniad ar gyfer Uned 2 ond gallant helpu i roi ffocws i'r broses ymarfer a helpu i wella'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer Uned 3).*<br>• Ystyried eu dewisiadau ar gyfer gwisgoedd, set, goleuo a sain mewn dyddiadur adfyfyriol anffurfiol. Er na chaiff perfformwyr eu hasesu ar gyfer y penderfyniadau hyn, mae Uned 2 yn ffordd ardderchog o baratoi'n ymarferol ar gyfer elfennau dylunio arholiad Uned 3.<br><br>Gallai dylunwyr wneud y canlynol:<br>• Cadw dyddiadur adfyfyriol yn ystod y broses ymarfer, gan nodi syniadau a drafodir yn ystod ymarferion neu awgrymiadau/ceisiadau a wneir gan berfformwyr.<br>• Dogfennu'r broses ymarfer drwy ffotograffau, arddangos y syniadau a'r diwygiadau a wneir o un ymarfer i'r nesaf yn weledol. Mae 'Microsoft Sway' yn ffordd hygyrch ac effeithiol o drefnu'r syniadau hyn yn ddigidol. Bydd dyddiadur adfyfyriol dylunydd yn adnodd gwerthfawr wrth baratoi ar gyfer y viva ar ddiwrnod y perfformiad.<br>• Anodi lluniau o'u penderfyniadau dylunio gan amlinellu'r hyn maent yn gobeithio ei gyfathrebu i'r gynulleidfa am y cymeriad neu'r testun drwy eu dewisiadau dylunio. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y pwnc ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| profi amrywiaeth o berfformiad(au) a/neu weithdai proffesiynol, naill ai'n bersonol neu ar-sgrin | • Defnyddiwch National Theatre Collection, sydd ar gael am ddim i ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth. Gellid defnyddio'r adnodd hwn i archwilio genres ac arddulliau gwahanol i helpu dysgwyr i benderfynu pa destun yr hoffent ei berfformio. Gallai dylunwyr ddefnyddio'r llwyfan i ymchwilio i syniadau set, goleuo, sain a gwisgoedd ac addasu'r rhain ar gyfer eu testun eu hunain yn yr arholiad.<br><br>• Lle bo'n bosibl, trefnwch i ddysgwyr ymweld â'r theatr i wylio perfformiadau byw o amrywiaeth o destunau; bydd perfformwyr a dylunwyr yn gallu cael ysbrydoliaeth o berfformiadau o'r fath a chymhwyso sgiliau a welir mewn cynyrchiadau proffesiynol yn eu perfformiadau arholiad eu hunain. Gall ysgolion wneud cais am grantiau, fel grant Ewch i Weld gan Gyngor Celfyddydau Cymru i helpu i dalu costau teithio i'r theatr.<br><br>• Mae llawer o gwmnïau theatr a awgrymir, fel The Paper Birds a Frantic Assembly yn cynnig gweithdai mewn ysgolion a gallai hyn herio dysgwyr sydd am gymhwyso arddull i'w perfformiad Uned 2.<br><br>• Chwiliwch am gyn ddisgyblion sydd wedi parhau i berfformio yn y brifysgol neu yn y gweithle a gofynnwch iddynt ddychwelyd i'r ysgol a chynnig gweithdy; gall hyn fod yn brofiad mwy rhesymol, ond yr un mor werthfawr, i'r dysgwyr. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| profi amrywiaeth o rolau – gan gynnwys fel perfformiwr, dylunydd, cyfarwyddwr, cynhyrchydd a rheolwr llwyfan | • Dylech annog perfformwyr nad oes ganddynt ddylunydd fel rhan o'u grŵp i ystyried eu syniadau dylunio ar gyfer eu harholiad.<br><br>• Dylid annog ymgeiswyr dylunio i gydweithio'n agos â pherfformwyr yn ystod y broses ymarfer oherwydd bydd hyn yn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r testun y maent yn dylunio ar ei gyfer. Gall dylunwyr gamu i mewn ar gyfer actorion os bydd absenoldebau er mwyn i'r grŵp barhau i ymarfer.<br><br>• Fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech drefnu bod y grwpiau yn perfformio o flaen ei gilydd a rhoi adborth ar sut i wella'r perfformiadau fel y byddai cyfarwyddwr yn ei wneud mewn ymarferion.<br><br>• Dylid annog dysgwyr i redeg yr arholiad yn annibynnol, gyda phob grŵp yn gyfrifol am osod y llwyfan ar gyfer grŵp arall a sicrhau bod yr holl bropiau a gwisgoedd angenrheidiol yn cael eu paratoi.<br><br>• Os na fydd unrhyw ddylunwyr wedi'u neilltuo ar gyfer grŵp, gallai dysgwyr weithredu'r goleuo a'r sain ar gyfer grwpiau eraill yn ystod yr arholiad. |
| datblygu hyder wrth roi a derbyn adborth, hyrwyddo meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol | • Dylai athrawon roi adborth i'r holl ddysgwyr ar dri achlysur yn ystod y cyfnod ymarfer.<br><br>• Gorffennwch y gwersi drwy ofyn i'r grwpiau berfformio munud o'r perfformiad sy'n effeithiol yn eu barn nhw a munud y maent yn ymwybodol bod angen ei ddatblygu ymhellach.<br><br>• Dylid annog dysgwyr i gadw dyddiadur adfyfyriol anffurfiol ar ddiwedd pob ymarfer gan gydnabod cryfderau a gwendidau eu perfformiadau. Yn y dyddiadur hwn gallant adfyfyrio ar beth fyddai'r camau gorau i'w cymryd nesaf er mwyn gwella eu perfformiadau.<br><br>• Rhannwch sesiynau ymarfer hirach er mwyn helpu gyda gwydnwch drwy roi ffocws i bob rhan o'r ymarfer, e.e. defnydd o lefelau, syniadau i ryngweithio, defnydd o set, arbrofi gyda seibiau. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | |
|---|---|
| cael cyfleoedd i fentro, creu'n fyrfyfyr a goresgyn heriau creadigol | • Gall golygfeydd byrfyfyr rhwng cymeriadau arwain at ddealltwriaeth fanylach a galluogi dysgwyr i arbrofi gyda thechnegau ymarfer y gallant hefyd gyfeirio atynt yn Uned 3.<br><br>• Gellir cymryd risgiau drwy ddewis testunau mwy heriol/clasurol i'w perfformio. Byddai arbrofi ag acenion (lle bo'n briodol) a dyfalbarhau er mwyn perffeithio'r acenion hyn yn annog dysgwyr i oresgyn heriau creadigol.<br><br>• Gallai perfformwyr arbrofi drwy ddefnyddio seibiau ac amrywio hyd yr adegau hyn o ddistawrwydd tan y byddant yn darganfod yr awyrgylch priodol.<br><br>• Yn yr un modd, gallai dylunwyr arbrofi gyda thanbeidrwydd golau, lefel sain cerddoriaeth, amlygrwydd colur a graddfa dyluniadau set.<br><br>• Bydd yn rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ar gyfer Uned 2 oresgyn heriau wrth weithio o fewn cyllideb mewn ysgolion. Gallai dylunwyr ysgrifennu llythyrau i theatrau lleol i ofyn am gael cydweithio ac i geisio ysbrydoliaeth yn eu cypyrddau gwisgoedd. Gallai neges e-bost at gwmnïau theatr gymunedol leol arwain at barodrwydd i fenthyca cyfarpar neu set neu gallai'r adran Technoleg Dylunio helpu'r rhai sy'n dewis sefyll arholiad fel dylunydd set. |
| cymryd rhan mewn rhyw fath o berfformiad cydweithredol | • Bydd yn rhaid i bob dysgwr weithio gydag un person arall o leiaf ar gyfer Uned 2.<br><br>• Dylai dylunwyr gydweithio â'r perfformwyr ac ochr yn ochr â dylunwyr eraill yn y grŵp i gytuno ar gysyniad cyffredin ar gyfer y perfformiad. |
| meithrin ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel bo'n briodol | • Dylai athrawon arwain trafodaethau ynghylch castio priodol ac osgoi ystrydebau wrth wneud penderfyniadau creadigol.<br><br>• Dylid cymryd mwy o amser a gofal gyda dysgwyr yn dewis testunau sy'n archwilio hil, crefydd, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol a dylid annog dysgwyr i gynnal ymchwil bersonol i brofiadau ac ymddygiadau pobl o grwpiau lleiafrifol cyn y broses ymarfer.<br><br>• Yn ystod ymarferion, dylai dysgwyr helpu grwpiau eraill i ymarfer eu llinellau a chadw at y sgript wreiddiol yn unol â bwriad y dramodydd. Gellid cynnal trafodaethau ynghylch pwysigrwydd osgoi byrfyfyrio ac aralleirio llinellau a'r modd y byddai hyn yn bwysig pe byddent yn gweithio i gwmni theatr proffesiynol yn y dyfodol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | | | |
|---|---|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod Drama yn eu herio i ystyried eu cynefin a'r posibiliadau sydd ganddynt i lywio'r byd lle maent yn byw ac effeithio arno. Drwy astudiaeth amrywiol o destunau dramâu a chrefft theatr, gwahoddir dysgwyr i ymfalchïo yn eu treftadaeth ddiwylliannol eu hunain fel ffordd o gyfrannu'n gadarnhaol at y gymdeithas lle maent yn byw.**<br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | **Cyfeirnod y Fanyleb** | **Ymhelaethiad** | **Enghraifft** |
| | 2.1.1 | Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr | • Yn ystod y broses o ddewis testunau addas ar gyfer Uned 2, bydd dysgwyr yn cael profiad o amrywiaeth o ddramâu sy'n archwilio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Dylai athrawon wneud pob ymdrech i gynnig amrywiaeth eang o destunau a sicrhau bod dramâu a ysgrifennir gan ddramodwyr o Gymru ac sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr.<br>• Dylid annog dysgwyr i arbrofi ag acenion sy'n briodol i gymeriadau a lleoliadau'r testunau a ddewiswyd ganddynt. Gallai dylunwyr geisio adlewyrchu cyd-destunau testunau a ddewiswyd drwy'r goleuo, sain, set a gwisgoedd, e.e. perfformiad cerddorol o emyn a genir yn draddodiadol gan lowyr o'r cymoedd cyn 'Land of our Fathers'.<br>• Gallai dysgwyr ddefnyddio technegau ymarfer fel creu'n fyrfyfyr, rôl ar y wal, cadair goch a lôn gydwybod i archwilio themâu a chyd-destunau a drafodir yn y golygfeydd o'u dewis. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr>
<td rowspan="3">Cynaliadwyedd</td>
<td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynaliadwyedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod pawb yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn ac wrth astudio'r materion hyn, caiff dysgwyr eu grymuso i roi newid ar waith er gwell.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynaliadwyedd yn yr addysgu a dysgu:</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfeirnod y Fanyleb</td>
<td>Ymhelaethiad</td>
<td>Enghraifft</td>
</tr>
<tr>
<td>2.1.1</td>
<td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td>
<td><ul>
<li>Oherwydd y dewis rhydd a roddir i ddysgwyr yn yr uned hon, mae'n bosibl y byddant yn dewis testun i'w berfformio sy'n archwilio cynaliadwyedd a'r cyfrifoldeb sydd gennym fel pobl i ddiogelu'r byd o'n cwmpas.</li>
<li>Lle bo'n bosibl ac yn berthnasol, gallai'r dysgwyr dynnu sylw at fomentau yn eu testun sy'n archwilio cynaliadwyedd ac ystyried sut gallent ysgogi pobl i feddwl ymhellach drwy eu cysyniad dylunio.
<ul>
<li>A ellid defnyddio goleuo i gynrychioli cynhesu byd-eang neu lefel y môr yn codi?</li>
<li>A allai araith Greta Thunberg am newid hinsawdd fod yn addas i'w dangos cyn y perfformiad?</li>
</ul></li>
</ul></td>
</tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr>
<td rowspan="5">Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb</td>
<td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod ein bodolaeth a'n dynoliaeth barhaus yn dibynnu ar gyd-barch a chydgyfrifoldeb i bawb gael eu trin yn deg.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr addysgu a dysgu:</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfeirnod y Fanyleb</td>
<td>Ymhelaethiad</td>
<td>Enghraifft</td>
</tr>
<tr>
<td>2.1.1</td>
<td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td>
<td>• Mae bron pob drama yn galluogi dysgwyr i archwilio cydberthnasoedd amrywiol rhwng cymeriadau gyda rhai yn eu galluogi i ystyried eu safbwyntiau a'u dealltwriaeth o addysg rhyw.<br><br>• Wrth baratoi at berfformiad, dylai dysgwyr sicrhau eu bod wedi dadansoddi'r gydberthynas sydd gan eu cymeriad ag eraill yn y ddrama. Gellid gwneud hyn drwy greu'n fyrfyfyr neu drwy ddadansoddiad ysgrifenedig.</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw</td>
<td>Yr ystyriaethau posibl yw:<br>1. Agwedd tuag at gymeriadau eraill<br>2. Yr hanes rhwng cymeriadau<br>3. Eu cymhelliant dros ryngweithio â chymeriadau eraill<br>4. Y gydberthynas uniongyrchol sydd ganddynt â chymeriadau eraill<br>5. Eu statws o gymharu â chymeriadau eraill yn yr olygfa</td>
</tr>
<tr>
<td>2.1.2</td>
<td></td>
<td>• Mae angen deall y gydberthynas rhwng cymeriadau mewn perfformiad er mwyn cael marciau rhyngweithio. Gallai dysgwyr:<br>  ◦ Arbrofi â'r pellter rhwng actorion drwy gamu tuag at ei gilydd pan gaiff llinell gadarnhaol ei dweud a chamu yn ôl ar linell negyddol.<br>  ◦ Byddai cyflwyno cylchoedd sylw Stanislavski yn dasg a allai herio dysgwyr mwy galluog wrth archwilio cydberthnasoedd mewn perfformiad.</td>
</tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td><ul><li>Gallai dylunwyr goleuo a sain arbrofi â thanbeidrwydd golau a dewis o seiniau awyrgylchol i adlewyrchu cydberthnasoedd cymeriadau ar y llwyfan.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth mewn TGAU Drama Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am fod y byd rydym yn byw ynddo yn esblygu'n barhaus a bod gennym gyfrifoldeb a rennir i drin pawb â pharch ac fel unigolyn yn ei rinwedd ei hun.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>2.1.1</td><td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td><ul><li>Bydd dewis rhydd i astudio a pherfformio unrhyw destun perfformiad a gyhoeddwyd yn galluogi dysgwyr i archwilio amrywiaeth o hawliau dynol gan gymuned amrywiol o ddramodwyr. Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o ddarnau o waith a ysgrifennwyd o safbwyntiau, hunaniaethau, diwylliannau a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.</li><li>Dylai athrawon gynnig amrywiaeth eang o destunau i'w harchwilio o gyfnodau a diwylliannau amrywiol a chynnwys gwaith o safbwyntiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Dylid cynnal trafodaethau â dysgwyr ynghylch y themâu a'r safbwyntiau amrywiol a gaiff eu harchwilio yn y testunau hyn.</li><li>Mae dramâu fel ‘Things I know to be true’ gan Frantic Assembly neu ‘Pronouns’ gan Evan Placey yn galluogi trafodaethau am gyfeiriadedd rhywiol ac amrywiaeth ac maent yn cynnig golygfeydd heriol sy'n ysgogi pobl i feddwl ar gyfer dysgwyr mwy abl.</li></ul></td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td rowspan="3">Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am ein bod am greu gwaith ystyrlon sy'n llywio ein dyfodol ein hunain a dyfodol pobl eraill mewn ffordd gadarnhaol ac ystyrlon.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>2.1.2</td><td>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw</td><td><ul><li>Yn naturiol, gan mai uned perfformio yw Uned 2, mae'n paratoi'r dysgwyr hynny sy'n gobeithio dilyn gyrfa mewn perfformio neu ddylunio cynhyrchiad. Fodd bynnag, dylai athrawon dynnu sylw at sgiliau trosglwyddadwy eraill a gaiff eu datblygu drwy'r uned yn rheolaidd yn ystod y broses ymarfer, fel cyfathrebu, gweithio fel rhan o dîm, goresgyn heriau, meddwl yn greadigol a meithrin hunanhyder.</li><li>Yn ystod y broses ymarfer, gallai dysgwyr hunanwerthuso eu cynnydd drwy gwblhau amrywiaeth o fodelau a gydnabyddir ym myd busnes a ddefnyddir gan fusnesau a chwmnïau presennol e.e. 'Model John Driscoll' sef 'Beth? Pa Wahaniaeth? Beth Nesaf?' er mwyn cynllunio eu camau nesaf i ddatblygu eu perfformiad. Mae Cylch Adfyfyriol Gibbs hefyd yn ddull y gellid ei gymhwyso i hunanwerthusiad hanner ffordd drwy berfformiad lle byddai dysgwyr yn dilyn y camau canlynol: Disgrifiad, Teimladau, Gwerthusiad, Dadansoddiad, Casgliad, Cynllun Gweithredu.</li><li>Drwy allu dangos bod y sgiliau a gaiff eu meithrin drwy ddatblygu testun o'r papur i'r perfformiad yn werthfawr ac yn drosglwyddadwy, mae'n debygol y bydd gan ddysgwyr fwy o ddiddordeb a chymhelliant i gymryd camau pwysig yn y broses, fel adfyfyrio a gwerthuso.</li></ul></td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrando | **Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am mai llythrennedd yw'r pasbort i bob math o gyfathrebu, sydd yn y pen draw yn gweithredu fel cyswllt â phob esblygiad dynol cydweithredol a datblygol.**<br><br>**Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu:** | | |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| | *2.1.2* | *Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio* ***neu*** *ddylunio mewn perfformiad byw* | • Mae sgiliau gwrando da yn hanfodol wrth baratoi ac yn y perfformiad ei hun. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr wrando ar syniadau ei gilydd wrth rannu eu syniadau ar gyfer perfformiad a bydd yn rhaid i ddylunwyr wrando ar ddadansoddiad yr actorion o'r testun a ddewiswyd ganddynt er mwyn dylunio'n briodol ar gyfer eu cysyniad arfaethedig.<br><br>• Bydd gwrando ac ymateb yn cael effaith uniongyrchol ar farc dysgwr ar gyfer llais a rhyngweithio. Un ffordd o sicrhau bod dysgwyr wedi rhoi digon o sylw i'w sgiliau gwrando yw gofyn iddynt berfformio eu golygfa yn y tywyllwch neu gyda'u llygaid ar gau. Heb holl elfennau eraill y perfformiad, bydd angen i ddysgwyr ganolbwyntio ar wrando ar aelodau'r grŵp a phenderfynu ar ymateb priodol i'r hyn sy'n cael ei ddweud a sut caiff ei gyflwyno.<br><br>• Dylid annog dysgwyr i recordio eu hunain yn perfformio'r ddeialog heb yr elfennau blocio a dylunio. Wrth wrando'n ôl ar y recordiad, dylent ystyried a yw eu lleisiau'n cyfleu cymhellion a phersonoliaethau eu cymeriadau, ac os nad ydynt, dylent ystyried beth y gallant ei wneud i wella eu sgiliau lleisiol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | *Cyfeirnod y Fanyleb* | *Ymhelaethiad* | *Enghraifft* |
|---|---|---|---|
| Darllen | *2.1.1* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr* | • Bydd angen i ddysgwyr ddarllen amrywiaeth o destunau a golygfeydd wrth ddod i benderfyniad ynghylch pa un maent am ddewis ar gyfer y perfformiad. Gellid meithrin sgiliau darllen ymhellach drwy wneud y canlynol:<br>  • Dadansoddi cyfarwyddiadau llwyfan a cheisio tynnu sylw at yr is-destun yn y golygfeydd a ddewiswyd ganddynt.<br>  • Darllen ac ailddarllen unedau/rhannau o'r olygfa a nodi geiriau unigol y mae angen rhoi pwyslais arnynt er mwyn cyfleu'r ystyr. |
| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
| Siarad | *2.1.2* | *Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio* ***neu*** *ddylunio mewn perfformiad byw* | • Ar gyfer dysgwyr sy'n dewis cwblhau'r uned hon fel perfformiwr yn hytrach na dylunydd, mae sgiliau siarad yn rhan hanfodol o gyrchu'r asesiad a dylid defnyddio sawl techneg ymarfer lleisiol yn ystod y broses ymarfer i arbrofi â phosibiliadau lleisiol mewn perfformiad fel:<br>  • Pasio pêl yn ôl ac ymlaen wrth redeg llinellau er mwyn archwilio tempos amrywiol sy'n addas ar gyfer yr olygfa.<br>  • Perfformio'r holl sgript mewn un tôn llais ac oedi i dynnu sylw at linellau a weithiodd yn y dôn a ddewiswyd. Ailadrodd hyn gydag amrywiaeth o donau er mwyn helpu dysgwyr i nodi pwysigrwydd ceisio cyflwyno llinellau yn wahanol bob tro tan y byddant wedi canfod y dôn berffaith ar gyfer eu cymeriad.<br><br>• Ers cyflwyno'r viva i'r uned hon, bydd hefyd angen i ddylunwyr ddefnyddio eu sgiliau siarad er mwyn cyfleu eu syniadau i'r arholwr. Wrth baratoi ar gyfer y viva, gallai dysgwyr:<br>  • Recordio eu hunain yn cyflwyno eu syniadau fel ffordd o ymarfer ar gyfer y viva. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td><ul><li>Ysgrifennu eu vivas ar gardiau fflach a'u darllen allan i'r dosbarth fel ffordd o baratoi i gyflwyno o flaen yr arholwr ar ddiwrnod yr arholiad.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Ysgrifennu</td><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>2.1.1</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>Enghraifft<br><ul><li>Uned ymarferol yw'r uned hon yn bennaf ac felly caiff y cyfleoedd i feithrin sgiliau ysgrifennu eu canfod yn ystod y cyfnod ymarfer. Bydd dysgwyr yn:<ul><li>Anodi eu sgriptiau gyda chyfarwyddiadau llwyfan.</li><li>Dadansoddi eu cymeriadau drwy greu rôl ar y wal.</li><li>Torri eu golygfeydd yn unedau o gymhelliant a chofnodi teitlau ar gyfer y golygfeydd hyn ar eu sgriptiau.</li><li>Gwneud nodiadau hunanwerthuso ar ôl ymarfer neu berfformiad i gyfoedion.</li><li>Bydd dylunwyr yn creu nodiadau ar gyfer eu vivas a gallent anodi ffotograffau a brasluniau fel rhan o'r gwaith paratoi hwn.</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="4">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Rhifedd</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Datblygu Hyfedredd Mathemategol</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am eu bod yn sicrhau y gellir cymhwyso meddwl rhesymegol yn hael wrth greu celfyddyd arloesol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb<br><br>2.1.1</td><td>Ymhelaethiad<br><br>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>Enghraifft<br><ul><li>Mae'n debygol y bydd y cyfleoedd i ddatblygu hyfedredd mathemategol yn bennaf yn gymwys i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ar gyfer yr arholiad.</li><li>Bydd angen i ddylunwyr set ystyried mesuriadau o ran siâp, gofod a safle wrth greu cynlluniau llawr</li></ul></td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Gall dylunwyr hefyd ystyried siâp, gofod a safle wrth gyfrifo rhaglenni goleuo a dyluniadau set. |
| Mae deall y system rif yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>*2.1.2* | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio* ***neu*** *ddylunio mewn perfformiad byw* | ***Enghraifft***<br><br>• Caiff dylunwyr gyfle i weithio gyda niferoedd a symiau ar lefel sylfaenol drwy wneud y canlynol:<br>  • Dewis canrannau priodol ar gyfer tanbeidrwydd golau a lefelau sain.<br>  • Gweithio i raddfa wrth greu set a phropiau.<br>  • Mesur wrth ddylunio a chreu gwisgoedd.<br><br>• Dylai athrawon annog dylunwyr i arbrofi gyda thanbeidrwydd y golau a ddefnyddir mewn perfformiad, gan sicrhau bod actorion yn cael eu goleuo'n briodol ond nad yw'r golau'n rhy llachar i amharu ar yr awyrgylch. Yn yr un modd, dylid arbrofi â lefel y sain er mwyn sicrhau y gellir clywed actorion ond hefyd gan sicrhau bod y gerddoriaeth neu effeithiau arbennig a ddewiswyd yn cael yr effaith ddymunol ar y gynulleidfa.<br><br>• Bydd yn rhai i ddysgwyr gael ymwybyddiaeth o amser a chadw amser wrth ymarfer eu perfformiadau, gan sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau amser ar gyfer yr uned hon. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | Cyfeirnod y Fanyleb | Ymhelaethiad | Enghraifft |
|---|---|---|---|
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli ffenomena yn y byd go iawn | *2.1.2* | *Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio* ***neu*** *ddylunio mewn perfformiad byw* | • Gall actorion ddewis eu gofod perfformio eu hunain ar gyfer yr uned hon a dylid eu hannog i arbrofi ag amrywiaeth o siapiau llwyfannau, o fwa proseniwm i lwyfan traws, o lwyfan ymwthiol i theatr gylch.<br><br>• Wrth archwilio i hyn gallai dysgwyr wneud y canlynol:<br>  • Dysgu i gridio ardaloedd penodol o'r llwyfan er mwyn blocio golygfa yn effeithiol. Dylai dysgwyr ddefnyddio'r ardaloedd cywir o'r llwyfan e.e. I lawr llwyfan chwith wrth berfformio ar fwa proseniwm, ond bydd angen i ddysgwyr greu eu ffordd eu hunain o rannu llwyfan siapiau eraill. Dylid cyfeirio at yr ardaloedd hyn o'r llwyfan wrth flocio ac arbrofi â'r pellter rhwng actorion.<br>  • Ar ôl mapio golygfa, bydd dysgwyr yn gallu dadansoddi'r gydberthynas ofodol rhwng cymeriadau a phenderfynu a yw'r blocio a'r ardaloedd o'r llwyfan a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu cydberthynas y cymeriadau'n gywir. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | ***Cyfeirnod y Fanyleb*** | ***Ymhelaethiad*** | ***Enghraifft*** |
|---|---|---|---|
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau a phenderfyniadau gwybodus | *2.1.1* | *Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr* | • Ar ôl dewis eu testunau eu hunain ar gyfer Uned 2, gallai grŵp benderfynu perfformio drama Theatr mewn Addysg sy'n delio ag ystadegau mewn ymgais i addysgu'r gynulleidfa.<br>• Gallai actorion gael trafodaeth â'u dylunydd ynghylch y ffordd orau o dynnu sylw at bwysigrwydd y data a gyflwynir yn y ddrama.<br>  • A allent fod ar blacardiau?<br>  • Eu hatseinio drwy droslais?<br>  • Eu peintio ar gefnlenni?<br>  • Eu peintio ar wisgoedd?<br>  • Eu taflunio ar y wal gefn? |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Dinasyddiaeth</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am eu bod yn galluogi gwelliant digidol i gefnogi'r broses o greu gwaith newydd, gan gynnal perthnasedd yn y dirwedd gyfoes hon sy'n newid yn barhaus.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellir ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>2.1.1</td><td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>• Mae'n arfer da annog dysgwyr i ystyried pob elfen ar gynhyrchu wrth baratoi ar gyfer perfformiad; dylai hyd yn oed actorion ystyried eu sain, goleuo, set a gwisgoedd yn absenoldeb dylunydd penodol. Wrth ddewis cerddoriaeth, ffotograffau, fideos i'w defnyddio yn y perfformiad dylai'r athro:<br>  • Sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol ac yn deall rheolau a chyfreithiau hawlfraint a pharchu gwaith creadigol eraill.<br><br>• Wrth weithio fel rhan o grŵp, mae'n debygol y bydd dysgwyr yn rhannu ffolderi ar-lein ac yn cydweithio ar ddogfen. Dylai'r athrawon:<br>  • Sicrhau nad yw dysgwyr yn rhannu eu cyfrineiriau nac yn rhannu unrhyw waith a gaiff ei gwblhau ar y cyfryngau cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Rhyngweithio a Chydweithio</td><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>2.1.1</td><td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>• Bydd dysgwyr yn gweithio gydag o leiaf un person arall yn yr uned hon a dylid eu hannog i ryngweithio a chydweithio'n ddigidol yn ystod y cyfnod ymarfer. Gallent wneud y canlynol:<br>  • Cydweithio ar ddogfen Word drwy eu cyfrifon HWB</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Rhannu syniadau am elfennau technegol drwy lwyfannau fel 'Padlet', 'Mentimeter' neu 'Mural.'<br>• Gellid creu ffolderi OneDrive i gadw'r holl ddogfennau, ffotograffau a thraciau sydd eu hangen ar gyfer y perfformiad |
| Cynhyrchu | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>*2.1.2* | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio* ***neu*** *ddylunio mewn perfformiad byw* | ***Enghraifft***<br><br>• Gallai dysgwyr sy'n dewis astudio elfen ddylunio ar gyfer y cwrs hwn ddefnyddio meddalwedd amrywiol i gyflawni eu heffaith ddymunol ar gyfer y perfformiad.<br><br>• Gallai dylunwyr sain ddefnyddio 'Audacity' i drin traciau sain drwy ychwanegu atsain neu arafu/cyflymu'r gerddoriaeth i greu awyrgylch benodol.<br><br>• Un o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw y dylai dysgwyr allu gwerthuso eu gwaith digidol; mae hyn yn rhywbeth y byddant yn gallu ei wneud fel rhan o'u viva ar ddiwrnod yr arholiad. |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ***Cyfeirnod y Fanyleb***<br><br>*2.1.1* | ***Ymhelaethiad***<br><br>*Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr* | ***Enghraifft***<br><br>• Gallai dysgwyr lunio taenlen o'u costau wrth greu eu perfformiad. Bydd gorfod ystyried pris eu syniadau cynhyrchu yn eu hannog i feddwl mewn perthynas â phroblemau yn y byd go iawn. Ni ddylid cyfyngu hyn i ymgeiswyr dylunio yn unig, dylid cynnwys pob dysgwr ac mae enghreifftiau o'r modd y dechreuodd actorion fel Emma Rice ei chwmni ei hun mewn sied yng Nghernyw a'r modd y mae costau cynhyrchu, fel actor a chyfarwyddwr, yn berthnasol i bawb sy'n rhan o berfformiad. |



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><th colspan="4">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesedd mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr am ein bod yn gobeithio y gall gwaith dysgwyr heddiw ddatrys heriau yfory, ynghyd â chanfod posibiliadau nad oeddem yn gwybod eu bod yn bodoli.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Creadigrwydd ac Arloesedd yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>2.1.1.</td><td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>• Dylai creadigrwydd ac arloesedd fod wrth wraidd y gwaith paratoi ar gyfer yr uned hon. Dylai ymgeiswyr actio a dylunio gael rheolaeth greadigol lwyr dros eu perfformiadau a dylid eu hannog i gymhwyso eu syniadau a'u gweledigaeth eu hunain i'r testunau a ddewiswyd ganddynt.<br><br>• Ar ôl darllen y cyfarwyddiadau llwyfan a ddarperir gan y dramodydd, gallai dysgwyr dynnu sylw at y rhai y maent am eu defnyddio a dileu'r rhai y maent am eu gweithredu'n wahanol. Drwy ysgrifennu eu cyfarwyddiadau llwyfan eu hunain ar y sgript, byddant yn dechrau cymhwyso eu syniadau eu hunain ar gyfer y perfformiad.<br><br>• Gallai ymgeiswyr dylunio sy'n dewis dylunio dramâu mwy clasurol ddangos arloesedd drwy ddefnyddio dull dylunio mwy modern na'r hyn a ddefnyddiwyd gan y cynhyrchiad gwreiddiol. Gallai dysgwyr roi cynnig ar wneud darn gan Shakespeare yn addas ar gyfer cynulleidfa fodern drwy ddefnyddio cerddoriaeth gyfoes neu syniadau dylunio set digidol.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td rowspan="3">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr gan mai dim ond drwy'r dull hwn y gall canlyniad eu celfyddyd barhau i fod yn allgarol.<br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>2.1.1</td><td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>Bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio meddwl yn feirniadol a datrys problemau drwy gydol yr holl gyfnod ymarfer wrth iddynt weithio ar ddatblygu a mireinio eu perfformiad yn gyson.<br><br>• Gallai ymgeiswyr actio a dylunio feithrin eu sgiliau datrys problemau drwy arbrofi â siapiau llwyfan gwahanol ar gyfer y perfformiad. Er y bydd angen i ymgeiswyr actio sicrhau y gall y gynulleidfa fwynhau'r perfformiad o bob ongl, bydd angen i ymgeiswyr dylunio ystyried uchder a safle eu set er mwyn peidio â rhwystro llinellau gweld y gynulleidfa. Bydd angen i ymgeiswyr goleuo arbrofi ag onglau eu llusernau er mwyn osgoi cael cysgodion ar y llwyfan neu er mwyn creu rhai yn fwriadol.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td rowspan="3">Cynllunio a Threfnu</td><td colspan="3">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i Ddysgwyr oherwydd mae'n hanfodol bod y broses o astudio crefft theatr yn gyfannol, gan sicrhau bod gwaith y sawl sydd y tu ôl i'r llenni yn cael ei werthfawrogi i'r un graddau â'r sawl sy'n ymgorffori'r cynnyrch perfformiad terfynol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>2.1.1.</td><td>Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr</td><td>• Bydd cynllunio a threfnu yn hanfodol i lwyddiant yr uned hon a bydd angen i ddysgwyr gydweithio i drefnu eu cyfnodau ymarfer a sicrhau eu bod yn gwneud defnydd da o'r amser y maent wedi'i neilltuo.<br><br>• Gallai dysgwyr bennu targedau ar gyfer pob ymarfer yn eu dyddiadur ymarfer er mwyn sicrhau bod amcan clir ar gyfer pob gwers/sesiwn.<br><br>• Ar ddiwedd pob ymarfer, dylai dysgwyr drafod beth yw'r cam nesaf iddynt fel grŵp a chytuno arno.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

<table>
<tr><td rowspan="3">Effeithiolrwydd Personol</td><td colspan="3">Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Drama. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am ei fod yn eu galluogi i ystyried eu cyfraniad unigol i'r canlyniadau terfynol, gan gatalyddu gwerthusiad a thwf personol sydd o fudd i bawb y maent yn cydweithio â nhw.<br><br>Isod ceir enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Effeithiolrwydd Personol yn yr addysgu a'r dysgu:</td></tr>
<tr><td>Cyfeirnod y Fanyleb</td><td>Ymhelaethiad</td><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>2.1.2</td><td>Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw</td><td>• Yn ystod yr uned hon, dylid annog dysgwyr i hunanwerthuso yn rheolaidd, gan nodi meysydd o'u perfformiad eu hunain y mae angen eu gwella.<br><br>• Hanner ffordd drwy'r broses ymarfer, gallai dysgwyr recordio eu hunain yn perfformio er mwyn ei wylio'n ôl a myfyrio ar y modd mae eu perfformiad yn datblygu. Ar ôl gwylio'r perfformiad, dylent gytuno ar y camau nesaf sydd eu hangen i wella eu perfformiad, a bydd angen cymorth yr athro ar rai dysgwyr.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd.2025

# Atodiad A

## Amseriadau Perfformiad

Bydd hyd perfformiadau yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp a dylai fod fel a ganlyn:

- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor: 7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud.

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa am o leiaf pum munud. Nid yw nifer y dylunwyr mewn grŵp yn effeithio ar hyd y darn. Os bydd grŵp yn mynd heibio i'r uchafswm amser ar gyfer perfformiad, bydd arholwyr yn rhoi'r gorau i farcio ar ôl y pwynt hwn ac ni ellir rhoi marciau am unrhyw sgiliau a ddangosir ar ôl yr amser hwn.

Dylai athrawon ddweud wrth ddysgwyr am baratoi perfformiad sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial ac felly gallai rhai grwpiau o ddau actor berfformio am y 10 munud cyfan, a gallai grwpiau eraill anelu at 6 munud; gallai darn o theatr byrrach, mwy gorffenedig gan rai dysgwyr eu galluogi i gael mwy o farciau na rhoi cynnig ar ddarn hirach nad yw wedi'i ymarfer cystal. Gellid cynnig cyngor o'r fath i ddysgwyr ar un o'r adegau y bydd athrawon yn gweld y gwaith yn ystod y broses ymarfer.

Fel y nodwyd yn y fanyleb, nid yw'n debygol y bydd dysgwyr sy'n perfformio darn o theatr sy'n fyrrach o lawer na'r gofyniad sylfaenol yn debygol o gyrraedd y bandiau uchaf.



© WJEC CBAC Ltd.2025

# Atodiad B

## Y Viva

Bydd pob dylunydd yn paratoi viva i'w gyflwyno i'r arholwr yn amlinellu ei syniadau ar gyfer perfformiad. Mae awgrym ynghylch beth i'w gynnwys yn y viva wedi'i amlinellu isod:

- Gallai dylunwyr ddangos eu dealltwriaeth o'r testun a'r cymeriadau drwy drafod byrddau naws neu daflenni gwybodaeth a luniwyd yn ystod y broses ymarfer.
- Gallai dylunwyr goleuo a sain ddangos dealltwriaeth o'r bwrdd goleuo a sain a dangos sut defnyddir y rhain yn ystod y perfformiad.
- Gallai dysgwyr gyfeirio at feddalwedd a ddefnyddir wrth baratoi ar gyfer y perfformiad, e.e. Audacity ar gyfer dylunwyr sain.
- Gallai dylunwyr set ddangos modelau a luniwyd i'r arholwr ac esbonio eu gweledigaeth ar gyfer y perfformiad terfynol.
- Gallai dylunwyr gwisgoedd dynnu sylw at fanylion ar y gwisgoedd na ellid eu gweld yn ystod y perfformiad efallai e.e. rhwygiadau bach mewn dillad neu bwyth penodol a ddewiswyd.
- Gallai dylunwyr goleuo dywys yr arholwr drwy rai o'r ciwiau sydd fwyaf effeithiol yn eu barn nhw, gan roi amser i'r arholwr werthfawrogi'r cyflyrau goleuo yn ystod y perfformiad.
- Gallai dylunwyr sain ailchwarae rhai dewisiadau sain gan amlinellu eu rhesymau dros eu penderfyniadau a'u rhesymau dros lefel y sain a ddefnyddir yn y perfformiad.
- Ar ffurf portffolio neu PowerPoint, gallai dylunwyr gynnwys eu hymchwil, brasluniau, taflenni ciwiau, sgriptiau wedi'u hanodi, nodiadau ymarfer a ffotograffau; dylid trafod y rhain gyda'r arholwr.
- Gallai dylunwyr gyfeirio at ddiwygiadau a wnaed ganddynt a sut maent yn teimlo bod y diwygiadau hyn wedi gwella'r perfformiad cyffredinol yn ystod yr arholiad.



© WJEC CBAC Ltd.2025